# Polisi Teledu Cylch Cyfyng (Ysgolion)

# Closed Circuit Television Policy (Schools)



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Pwrpas Teledu Cylch Cyfyng
3. Trosolwg o'r System
4. Y Trefniadau Gweithredu
5. Gwylio delweddau
6. Gweithdrefn lawrlwytho
7. Arwyddion
8. Mynediad i ddelweddau
9. Deddf Diogelu Data 1998
10. Cadw a gwaredu data
11. Cwynion ynghylch gweithrediad y system
12. Polisïau a chanllawiau cysylltiedig


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## YGG Parc y Tywyn :

# Polisi CCTV

**1. Cyflwyniad**

Mae'r polisi canlynol yn ymwneud ag offer camerâu gwyliadwriaeth a chasglu, storio a defnyddio data sy'n cael ei recordio ar system Teledu Cylch Cyfyng.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n llwyr i weithredu amgylchedd diogel ac mae ganddi system teledu cylch cyfyng ar waith i helpu i ddarparu amgylchedd diogel i fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr, yn ogystal â diogelu eiddo'r ysgol.

Bydd yr ysgol wedi rhoi sylw dyladwy i Ddeddf Diogelu Data 1998, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data dilynol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Rhyddid 2012, Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r canllawiau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae system yr ysgol yn cynnwys nifer o gamera mewnol ac allanol o amgylch safleoedd yr ysgol. Mae'n bosibl y bydd pob camera yn cael ei fonitro a dim ond aelodau staff sydd wedi'u cymeradwyo sy'n cael eu defnyddio.

Mae'r system teledu cylch cyfyng yn eiddo i'r ysgol a bydd yn destun adolygiad bob blwyddyn.

**2. Pwrpas Teledu Cylch Cyfyng**

Mae'r ysgol wedi gosod system teledu cylch cyfyng er mwyn:

- Cynyddu diogelwch personol staff, myfyrwyr ac ymwelwyr a lleihau'r ofn o ran cam-drin corfforol, bygythiad a throseddau.
- Diogelu adeiladau'r ysgol a'i hasedau i sicrhau nad oes ymyrraeth, fandaliaeth, difrod, neu darfu.
- Cefnogi'r Heddlu mewn ymgais i atal a chanfod troseddau
- Cynorthwyo i atal a chanfod troseddau a niwsans cyhoeddus.
- Cynorthwyo i adnabod, dal ac erlyn troseddwyr
- Cynorthwyo i nodi gweithredoedd/gweithgareddau a allai arwain at achos disgyblu yn erbyn staff a myfyrwyr.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

**3. Trosolwg o'r System**

Mae'r system teledu cylch cyfyng ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Lleolir y camerâu teledu cylch cyfyng mewn mannau strategol ar y safle, yn bennaf wrth y fynedfa a'r man ymadael ar gyfer y safleoedd ac adeiladau amrywiol, yn ogystal â phrif dramwyfeydd ac ardaloedd cyffredin ledled y safleoedd.

Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl o'r system teledu cylch cyfyng, nid yw'n cynnwys pob ardal ac nid yw'n bosibl gwarantu y bydd y system yn canfod pob digwyddiad yn yr ardal dan sylw

**4. Y Trefniadau Gweithredu**

Mae aelod staff dynodedig yn gyfrifol am weithredu'r system o ddydd i ddydd a sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn.

Rhaid cofrestru'r system teledu cylch cyfyng gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan delerau Deddf Diogelu Data 1998 a bydd yn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Bydd camerâu'n cael eu defnyddio i fonitro gweithgareddau ar dir yr ysgol ac ardaloedd eraill i nodi gweithgarwch troseddol canfyddedig, a ragwelir neu sy'n digwydd, ac er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y deiliaid a'r ymwelwyr sydd ar dir yr ysgol. Mae'n bosib y bydd y data'n cael ei ddefnyddio i gefnogi polisi ymddygiad yr ysgol yn ôl yr angen.

Ni fydd camerâu sefydlog yn canolbwyntio ar gartrefi preifat, gerddi ac ardaloedd eraill o eiddo preifat.

Ni fydd gweithredwyr camerâu 'Pan, Tilt a Zoom' yn cyfeirio camerâu at unigolyn. Pan ofynnir i weithredwr gyfarwyddo camera/camerâu fel hyn dylent ofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch a ddylai'r gweithgaredd arfaethedig gael ei awdurdodi o dan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio.

Mae cynllun a dyluniad y system teledu cylch cyfyng presennol wedi ceisio sicrhau'r effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd mwyaf posibl, ond nid yw'n bosibl gwarantu y bydd y system teledu cylch cyfyng yn cynnwys neu'n canfod pob un digwyddiad yn yr ardaloedd dan sylw.

**5. Gwylio delweddau**

Mae gwylio achlysurol neu edrych drwy ddelweddau neu sain ar y system teledu cylch cyfyng yn cael ei wahardd yn llym. Dim ond at ddiben cyfreithlon penodol y gellir gwylio'r deunydd.

Bwriad monitorau'r system teledu cylch cyfyng sydd wedi cael gosod mewn derbynfeydd yw galluogi staff awdurdodedig yr ysgol i fonitro derbynfa'r ysgol yn fyw. Dylai'r gallu i weld

monitorau y system teledu cylch cyfyng cael ei gyfyngu i'r rhai a awdurdodwyd i'w gweld. Ni ddylai'r monitorau fod yn weladwy i bawb sy'n cyrraedd y safle.

Dim ond unigolion sydd wedi cael awdurdod gan yr aelod staff dynodedig perthnasol fydd yn gallu monitro'r systemau teledu cylch cyfyng pan fo'n ofynnol.

**6. Gweithdrefn Lawrlwytho**

Pe bai angen lawrlwytho at ddibenion tystiolaeth, dim ond yr aelod staff dynodedig fydd yn gallu gwneud copi electronig. Os mai'r unig fodd i drosglwyddo lluniau yw trwy ddefnyddio uned storio gludadwy, rhaid dileu'r deunydd ar unwaith ar ôl troslgwyddo'r data.

**7. Arwyddion**

Rhaid i bob arwydd gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a datgan pwrpas y system, ynghyd â phwy yw'r gweithredwr a phwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau a chwynion.

Dylid nodi yn glir ar arwyddion pob ardal lle mae teledu cylch cyfyng sefydlog yn cael ei ddefnyddio. Mae arwyddion o'r fath yn rhybuddio pobl eu bod ar fin mynd i mewn i ardal sy'n cynnwys system teledu cylch cyfyng neu i'w hatgoffa eu bod yn dal mewn ardal sy'n cynnwys system teledu cylch cyfyng. Bydd yr arwyddion hefyd yn rhwystr ychwanegol. Ni ddylid gosod arwyddion mewn ardaloedd sydd heb gamerâu teledu cylch cyfyng. Bydd arwyddion yn cael eu gosod mewn lle amlwg ar bwyntiau strategol ac wrth fynedfa a mannau ymadael ar safleoedd yr ysgol i roi gwybod i staff, myfyrwyr, ymwelwyr, ac aelodau'r cyhoedd bod system teledu cylch cyfyng yn cael ei ddefnyddio, ei bwrpas a manylion y gweithredwr.

**8. Mynediad i Ddelweddau**

O dan Erthygl 15 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data mae hawl gan wrthrychau'r data gael mynediad at wybodaeth a gedwir amdanynt gan yr ysgol a chael copi o'r data personol hwnnw.

Rhaid i geisiadau am gael mynediad at ddelweddau teledu cylch cyfyng gynnwys:

- Y rheswm dros y cais
- Dyddiad ac amser cafodd y delweddau eu recordio
- Gwybodaeth i adnabod yr unigolyn, os oes angen
- Lleoliad y camera teledu cylch cyfyng
- Prawf adnabod

  Rhaid gwneud ceisiadau o'r fath yn ysgrifenedig at y Swyddog Diogelu Data, dpoysgol@sirgar.gov.uk

Nid oes gan unigolion sy'n dymuno cael copi o ddelweddau teledu cylch cyfyng (h.y. delweddau nad ydynt yn ymwneud â'r person sy'n gwneud y cais) yr hawl i gael mynediad at ddelweddau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, rhaid bod yn ofalus wrth

gydymffurfio â cheisiadau o'r fath i sicrhau nad yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Deddf Hawliau Dynol na'r Polisi Teledu Cylch Cyfyng yn cael eu torri.

Dim ond os yw'r un sy'n cyflwyno'r cais yn bodloni'r meini prawf canlynol y bydd ceisiadau gan drydydd parti yn cael eu caniatáu:

- Asiantaethau gorfodi'r gyfraith (lle byddai'r delweddau a recordiwyd yn cynorthwyo mewn ymholiad troseddol penodol)
- Asiantaethau Erlyn a'u Cynrychiolwyr Cyfreithiol
- Cwmnïau Yswiriant a'u Cynrychiolwyr Cyfreithiol

Dylai pob cais gan drydydd parti am gopi o luniau teledu cylch cyfyng gael ei gyflwyno yn ysgrifenedig i Reolwr Data'r ysgol.

O bryd i'w gilydd, gallai swyddogion yr heddlu ofyn am weld delweddau o systemau teledu cylch cyfyng wrth ymchwilio i weithgaredd troseddol. Yn gyffredinol, caniateir hyn o dan eithriad a geir o dan y Ddeddf Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU

**9. Deddf Diogelu Data 1998**

- Mae delweddau digidol teledu cylch cyfyng, os ydynt yn dangos person adnabyddus, yn ddata personol ac yn cael eu cynnwys yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae'r polisi hwn yn gysylltiedig â Pholisi Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr ysgol, a dylid cadw at y darpariaethau hynny bob amser
- Mae'r ysgol wedi cofrestru’r dasg o brosesu data personol (gan gynnwys teledu cylch cyfyng) gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Gweler ein gwefan am fanylion pellach am bolisi Diogelu Data Ysgolion:**

https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/polisiaupolicies/

**10. Cadw a gwaredu data**

Bydd delweddau wedi'u recordio yn cael eu cadw heb fod yn hirach na 30 diwrnod/ un mis calendr o ddyddiad y recordiad, oni bai ei fod yn ofynnol at ddibenion tystiolaeth neu ymchwiliad. Bydd yr holl ddelweddau sydd wedi'u storio'n electronig yn cael eu dileu drwy system drosysgrifo awtomataidd.

**11. Cwynion ynghylch gweithredu'r system**

Dylai cwynion ynglŷn â'r system teledu cylch cyfyng a'i gweithrediad gael eu gwneud drwy weithdrefn gwynion yr ysgol.

**12. Polisïau a chanllawiau cysylltiedig**

- Côd ymddygiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ICO | .ICO

| | Name | Signature | Date |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd y Llywodraethwyr | Mathew Davies | MDavies | 1/09/24 |
| Pennaeth | Angharad Williams | *AWilliams* | 16.07.25 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad adolygu | Mai 2026 |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council